# AWEL AMAN TAWE (AAT)

www.aat.cymru www.hwbygors.cymru

Hwb y Gors, Heol y Gors, Cwmgors, SA18 1UU

| Recruitment Pack | Pecyn Recriwtio |
|---|---|
| Voluntary Trustee Board Members | Aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr Gwirfoddol |

Table of Contents

Overview ....................2
Role Description ....................2
Overall Purpose of the Role ....................2
Key responsibilities ....................3
Person Specification ....................3
Time Commitment & Location ....................4
Application Process ....................4
Trosolwg ....................5
Disgrifiad o'r Rôl ....................5
Prif Bwrpas y Rôl ....................5
Prif Gyfrifoldebau ....................6
Manyleb y Person ....................6
Ymrwymiad Amser a Lleoliad ....................7
Y Broses Ymgeisio ....................7

## Overview

We're looking for committed, community minded people to join our Board of Trustees and help guide our charity as we expand our work to build a green, fair economy which is shaped by communities and delivers real resilience and empowerment.

As a member of the Board of Trustees, you will ensure that AAT fulfils its legal duties, pursues its vision, mission and values, and maintains financial stability. You will provide strategic direction, governance oversight, and support to the executive team. You don't need prior Board experience, and we welcome applications from everyone.

## Role Description

**About the Organisation**

Awel Aman Tawe is a pioneering community energy charity working to tackle the climate emergency while strengthening community resilience. Founded in 1998, we have developed two of the largest renewable energy co-operatives in Wales – Awel Co-op (wind) and Egni Co-op (solar and smart local energy systems).

We are entering an exciting and pivotal phase. Alongside our established renewable energy assets, we are developing new infrastructure, including a solar farm and battery storage project (one of the UK's first "tribrid" systems). We are also advancing shared ownership wind and solar projects with commercial developers – these are multi-million pound projects and will be getting built over the next 2-10 years. We are also expanding our portfolio of community, education and enterprise activities. As of end 2025, AAT and group companies have a combined balance sheet of more than £19m and turnover of £4m

Our work spans multiple legal and operational structures, including a charity, community benefit societies (co-ops), trading activity and joint ventures. Hwb y Gors, our low-carbon arts and enterprise centre, is a key part of our growing earned income and community development.

We are a dynamic, values-driven organisation with a strong track record and ambitious plans for the future.

## Overall Purpose of the Role

As a member of the Board of Trustees, you will ensure that AAT fulfils its legal duties, pursues its vision, mission and values, and maintains financial stability. You will provide strategic direction, governance oversight, and support to the executive team.

## Key responsibilities

**Strategic Leadership & Governance**

- Determine the overall direction, vision, and long-term strategy of the organisation
- Ensure the organisation complies with its governing document, charity law, company law, and any other relevant legislation
- Provide constructive challenge and support to the chief officer and senior management team

**Financial & Risk Management**

- Ensure that the organisation's resources are used exclusively in pursuance of its charitable objectives
- Oversee financial performance, ensuring robust controls, budgeting, and effective administration are in place
- Ensure major risks are regularly identified, evaluated, and mitigated

**Advocacy & Stakeholder Engagement**

- Act as a champion for the organisation, representing its interests at local and national levels in Wales.

## Person Specification

- Awel Aman Tawe's mission is to drive community action to a low carbon future for everyone and we work with diverse groups to achieve this. Therefore, we are also keen to improve diversity on the Board and encourage applications from all backgrounds – you don't need previous Board experience
- We are seeking to appoint a number of new Trustees, including a vice-chair, joining the Board on a staggered basis over the coming months
- We are encouraging interest from those with strong local connections in the Upper Amman and Swansea Valleys
- We are keen to also hear from those who have experience in HR & safeguarding, fundraising & income generation, construction & estates management, legal services and those from the arts & creative, health & wellbeing and youth work sectors.
- You will be committed to delivering the organisation's strategy
- You will have a willingness to devote the necessary time and effort to Board duties
- You will hold excellent communication skills, sound judgement, and the ability to work collaboratively as part of a team.

## Time Commitment & Location

- **Meetings:** 4 Board meetings per year, plus occasional extraordinary / subcommittee meetings
- **Location:** Meetings are held online and in person (alternating). In person is held at Hwb y Gors, Cwmgors, Neath Port Talbot
- **Remuneration:** The role is voluntary, but reasonable travel and subsistence are covered when on charity business

## Application Process

Please submit a CV and covering letter to: croeso@awel.coop

Subject line: Trustee Application

If you would like to discuss this opportunity, please phone Katie Powis, Chair on 07493 060539.

The closing date for applications is midnight on Friday 11th September 2026. Interviews will take place week commencing Monday 21st September 2026.

## Trosolwg

Rydym yn chwilio am bobl ymroddedig sy'n ymwybodol o'u cymuned i ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr a helpu i arwain ein helusen wrth inni ehangu ein gwaith i adeiladu economi werdd a theg, wedi'i llunio gan gymunedau ac sy'n darparu gwytnwch a grymuso gwirioneddol.

Fel aelod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, byddwch yn sicrhau bod AAT yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, yn dilyn ei weledigaeth, ei genhadaeth a'i werthoedd, ac yn cynnal sefydlogrwydd ariannol. Byddwch yn darparu cyfeiriad strategol, goruchwyliaeth llywodraethu a chefnogaeth i'r tîm gweithredol. Nid oes angen profiad blaenorol o fod ar Fwrdd, ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb.

## Disgrifiad o'r Rôl

**Ynglŷn â'r Sefydliad**

Mae Awel Aman Tawe yn elusen ynni cymunedol arloesol sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd wrth gryfhau gwytnwch cymunedol. Fe'i sefydlwyd yn 1998, ac rydym wedi datblygu dau o'r cydweithfeydd ynni adnewyddadwy mwyaf yng Nghymru, sef Awel Co-op (gwynt) ac Egni Co-op (solar a systemau ynni lleol clyfar).

Rydym yn dechrau ar gyfnod cyffrous a phwysig. Yn ogystal â'n hasedau ynni adnewyddadwy presennol, rydym yn datblygu seilwaith newydd, gan gynnwys prosiect fferm solar a storio batris (un o'r systemau "tribrid" cyntaf yn y DU). Rydym hefyd yn datblygu prosiectau gwynt a solar â pherchnogaeth a rennir gyda datblygwyr masnachol. Mae'r rhain yn brosiectau gwerth miliynau o bunnoedd a byddant yn cael eu hadeiladu dros y 2 i 10 mlynedd nesaf. Ar yr un pryd, rydym yn ehangu ein portffolio o weithgareddau cymunedol, addysgol a menter. Ar ddiwedd 2025, roedd gan AAT a'i gwmnïau grŵp fantolen gyfunol o dros £19 miliwn a throsiant o £4 miliwn.

Mae ein gwaith yn ymestyn ar draws nifer o strwythurau cyfreithiol a gweithredol, gan gynnwys elusen, cymdeithasau budd cymunedol (cydweithfeydd), gweithgareddau masnachu a mentrau ar y cyd. Mae Hwb y Gors, ein canolfan gelfyddydau a menter carbon isel, yn rhan allweddol o'n hincwm a enillir a'n gwaith datblygu cymunedol sy'n tyfu.

Rydym yn sefydliad deinamig sy'n cael ei yrru gan werthoedd, gyda hanes cryf o gyflawni a chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

## Prif Bwrpas y Rôl

Fel aelod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, byddwch yn sicrhau bod AAT yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, yn dilyn ei weledigaeth, ei genhadaeth a'i werthoedd, ac yn cynnal sefydlogrwydd ariannol. Byddwch yn darparu cyfeiriad strategol, goruchwyliaeth llywodraethu a chefnogaeth i'r tîm gweithredol.

## Prif Gyfrifoldebau

**Arweinyddiaeth Strategol a Llywodraethu**

- Pennu cyfeiriad cyffredinol, gweledigaeth a strategaeth hirdymor y sefydliad.
- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i ddogfen lywodraethu, cyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.
- Darparu her adeiladol a chefnogaeth i'r prif swyddog a'r uwch dîm rheoli.

**Rheoli Cyllid a Risg**

- Sicrhau bod adnoddau'r sefydliad yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl i hyrwyddo ei amcanion elusennol.
- Goruchwylio perfformiad ariannol, gan sicrhau bod rheolaethau cadarn, cyllidebu effeithiol a threfniadau gweinyddol priodol ar waith.
- Sicrhau bod risgiau mawr yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u lliniaru'n rheolaidd.

**Eiriolaeth ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

- Gweithredu fel hyrwyddwr i'r sefydliad, gan gynrychioli ei fuddiannau ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru.

## Manyleb y Person

Cenhadaeth Awel Aman Tawe yw sbarduno gweithredu cymunedol tuag at ddyfodol carbon isel i bawb, ac rydym yn gweithio gyda grwpiau amrywiol i gyflawni hyn. Felly, rydym hefyd yn awyddus i wella amrywiaeth ar y Bwrdd ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir. Nid oes angen profiad blaenorol o fod ar Fwrdd.

Rydym yn ceisio penodi nifer o Ymddiriedolwyr newydd, gan gynnwys Is-gadeirydd, a fydd yn ymuno â'r Bwrdd yn raddol dros y misoedd nesaf.

Rydym yn arbennig o annog diddordeb gan bobl sydd â chysylltiadau lleol cryf yn nyffrynnoedd Aman Uchaf a Thawe.

Byddem hefyd yn falch o glywed gan bobl sydd â phrofiad ym maes AD a diogelu, codi arian a chynhyrchu incwm, adeiladu a rheoli ystâd, gwasanaethau cyfreithiol, yn ogystal â'r sectorau celfyddydol a chreadigol, iechyd a lles, a gwaith ieuenctid.

Byddwch yn:

- Ymroddedig i gyflawni strategaeth y sefydliad.
- Yn barod i roi'r amser a'r ymdrech angenrheidiol i ddyletswyddau'r Bwrdd.
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol, barn gadarn, a'r gallu i weithio'n gydweithredol fel rhan o dîm.

## Ymrwymiad Amser a Lleoliad

**Cyfarfodydd:** 4 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn, ynghyd ag ambell gyfarfod arbennig neu gyfarfod is-bwyllgor.

**Lleoliad:** Cynhelir cyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb bob yn ail. Cynhelir y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Hwb y Gors, Cwmgors, Castell-nedd Port Talbot.

**Tâl:** Mae'r rôl yn wirfoddol, ond bydd costau teithio a chynhaliaeth rhesymol yn cael eu had-dalu wrth gyflawni busnes yr elusen.

## Y Broses Ymgeisio

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol at:

**croeso@awel.coop**

**Llinell pwnc:** Cais am Aelodau Bwrdd

Os hoffech drafod y cyfle hwn, ffoniwch Katie Powis, Cadeirydd, ar 07493 060539**.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner nos ddydd Gwener 11 Medi 2026. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 21 Medi 2026.**